Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)


# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol






**Rhifyn 267 (Cymru) – 24 Mawrth 2020**


## Postponement of polls

Yn dilyn y cyhoeddiad y bydd yr etholiadau a drefnwyd sydd i'w cynnal yng Nghymru a Lloegr ar 7 Mai 2020 yn cael eu gohirio tan fis Mai 2021, mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys darpariaethau yn y Mesur Coronafirws a fydd yn gweithredu hyn.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â gohirio is-etholiadau.

Disgwylir i'r Bil gael ei drafod yn San Steffan yr wythnos hon. Ar ôl iddo gwblhau ei broses ddeddfwriaethol, rydym yn disgwyl i ddeddfwriaeth eilaidd gael ei dwyn ymlaen i ddarparu mwy o fanylion ar sut y bydd gohirioetholiadau yn gweithredu'n ymarferol.

Byddwn yn eich diweddaru ar ôl i'r Bil gael ei wneud, a byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth am y ddeddfwriaeth eilaidd pryd bynnag y bydd ar gael.

Yn y cyfamser, os oes gyda chi unrhyw gwestiyau, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk.

**Ymgyrch cofrestru etholiadol**
Ymhellach i ohirio etholiadau 7 Mai 2020, ni fyddwn yn cynnal ein hymgyrch gofrestru.

Ni fyddwch yn gallu defnyddio'r adnoddau ymgyrchu a rannwyd gennym yn ddiweddar gan eu bod yn benodol i ddyddiad etholiadau mis Mai, ond gallwch ddefnyddio ein pecyn cymorth partner trwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo cofrestriad pleidleiswyr, a byddwn mewn cysylltiad maes o law. gyda threfniadau ar gyfer ymgyrch 2021.

Diolch am eich ymdrechion i gefnogi ymgyrch eleni. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi eto yn y dyfodol.

## Atgoffa ymgynghori ar safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Fel nodwyd ym Mwletinau eraill, ar y 22 Ionawr fe lansiwyd

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys


**Gohirio etholiadau**

Gwybodaeth am y Mesur Coronafirws, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â gohirio etholiadau ac is-etholiadau Mai 2020.

**Atgoffa ymgynghori ar safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol**

Atgoffa a dolen i ymgynghoriad y Comisiwn sy'n cau 31 o Fawrth.


**Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol.***

**Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar**

ymgynghoriad ar safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Ein bwriad yw sefydlu set o safonau y gellir eu defnyddio gan EROs a'r Comisiwn trwy gydol y flwyddyn (gan gynnwys y cyfnod cyn digwyddiadau etholiadol), i ddeall a gwella perfformiad, gan sicrhau yn y pen draw fod cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosib a bod pawb sy'n gymwys ac eisiau pleidleisio yn gallu gwneud hynny.

Rydym yn ddiolchgar am yr adborth a gawsom hyd yma. Os nad ydych eisoes wedi darparu eich barn, gallwch ymateb trwy lenwi'r ffurflen hon neu e-bostio'ch meddyliau at performancestandardsinbox@electoralcommission.org.uk.

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar **31 Mawrth**. Fodd bynnag, os ydych chi am ymateb i'r ymgynghoriad ond yn meddwl na fyddwch chi'n gallu cwrdd â'r dyddiad cau hwn, cysylltwch â ni trwy e-bost i performancestandardsinbox@electoralcommission.org.uk.

**Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.**

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2019